# Atodiad B - Deddfwriaeth ar draws gweinyddiaethau

## Dulliau presennol

**Tabl 1. Deddfwriaeth ysbaddu ar draws pob gweinyddiaeth yn y DU.** Tynnir sylw at wahaniaethau a darperir acronymau ar gyfer deddfwriaeth berthnasol mewn cromfachau. Gweler yr adran “defnyddio'r dull lleiaf poenus ar gyfer triniaethau” am ddisgrifiad o bob dull.

<table>
<tr><th></th><th>Lloegr</th><th>Cymru</th><th>Yr Alban</th><th>Gogledd Iwerddon</th></tr>
<tr><td rowspan="2">Ysbaddu cylch rwber (llai na 3 mis oed) - mae'n cynnwys dull ceillgwd byr a dull cyfunol</td><td>Gellir ei gyflawni ar anifail nad yw'n hŷn na 7 niwrnod oed (MRE). Does dim angen lleddfu poen.</td><td>Gellir ei gyflawni ar anifail nad yw'n hŷn na 7 niwrnod oed (MRW). Does dim angen lleddfu poen.</td><td>Gellir ei gyflawni heb anesthetig yn ystod wythnos gyntaf bywyd neu gydag anesthetig hyd at dri mis (PAA).</td><td>Gellir ei gyflawni ar anifail nad yw'n hŷn na 7 niwrnod oed (WAR). Does dim angen lleddfu poen.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Gall unrhyw un sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn ei gyflawni (VSA).</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Ysbaddu llawfeddygol (cyllell) (llai na 3 mis)</td><td colspan="4">Does dim angen lleddfu poen.</td></tr>
<tr><td>Gall unrhyw un sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn ei gyflawni (VSA).</td><td>Gall unrhyw un sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn ei gyflawni (VSA).</td><td>Dim ond milfeddyg gaiff wneud hyn (PPR).</td><td>Gall unrhyw un sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn ei gyflawni (VSA).</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dull ysbaddu arall (er enghraifft, Burdizzo neu glamp tebyg) (llai na 3 mis)</td><td colspan="4">Does dim angen lleddfu poen.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Gall unrhyw un sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn ei gyflawni (VSA).</td></tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ysbaddu dros 3 mis** | Rhaid rhoi anesthetig (MRE). | Rhaid rhoi anesthetig (MRW). | Rhaid rhoi anesthetig (PAA). | Does dim angen lleddfu poen. |
| | Dim ond milfeddyg gaiff wneud hyn (VSA). | | | |

**Tabl 2. Deddfwriaeth tocio cynffonnau ar draws pob gweinyddiaeth yn y DU.** Tynnir sylw at wahaniaethau a darperir acronymau ar gyfer deddfwriaeth berthnasol mewn cromfachau.

| | **Lloegr** | **Cymru** | **Yr Alban** | **Gogledd Iwerddon** |
|---|---|---|---|---|
| **Tocio cynffonnau â chylch rwber (llai na 3 mis) - mae'n cynnwys dull cyfunol** | Gellir ei gyflawni ar anifail nad yw'n hŷn na 7 niwrnod oed (MRE). Does dim angen lleddfu poen. | Gellir ei gyflawni ar anifail nad yw'n hŷn na 7 niwrnod oed (MRW). Does dim angen lleddfu poen. | Gellir ei wneud heb anesthetig yn ystod wythnos gyntaf bywyd neu gydag anesthetig hyd at dri mis (PAA). | Gellir ei gyflawni ar anifail nad yw'n hŷn na 7 niwrnod oed (WAR). Does dim angen lleddfu poen. |
| | Gall unrhyw un sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn ei gyflawni (VSA). | | | |
| **Tocio cynffonnau'n llawfeddygol (h.y. cyllell) (llai na 3 mis)** | Rhaid rhoi anesthetig (MRE). | Rhaid rhoi anesthetig (MRW). | Does dim angen lleddfu poen. | Does dim angen lleddfu poen. |
| | Gall unrhyw un sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn ei gyflawni (VSA). | Gall unrhyw un sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn ei gyflawni (VSA). | Dim ond milfeddyg gaiff wneud hyn (PPR). | Gall unrhyw un sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn ei gyflawni (VSA). |
| **Dulliau eraill o docio cynffonnau (er enghraifft, haearn poeth) (llai na 3 mis)** | Rhaid rhoi anesthetig (MRE). | Rhaid rhoi anesthetig (MRW). | Does dim angen lleddfu poen. | Does dim angen lleddfu poen. |
| | Gall unrhyw un sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn ei gyflawni (VSA). | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Tocio cynffonnau dros 3 mis** | Rhaid rhoi anesthetig (MRE). | Rhaid rhoi anesthetig (MRW). | Rhaid rhoi anesthetig (PAA). | Does dim angen lleddfu poen. |
| | Gall unrhyw un sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn ei gyflawni (VSA). | Gall unrhyw un sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn ei gyflawni (VSA). | Dim ond milfeddyg gaiff wneud hyn (PPR). | Gall unrhyw un sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn ei gyflawni (VSA). |

## Dulliau newydd

Mae rhai cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud â defnyddio dulliau newydd a ddatblygwyd yn ddiweddar y caniateir eu cyflawni ar hyn o bryd ym mhob gweinyddiaeth o dan amodau gwahanol.

Mae ClipFitter yn golygu rhoi 'clip' ar draws lled llawn y ceillgwd neu rhwng fertebrâu cynffonnau gan ddefnyddio gefelen lifer-cyfansawdd tra-chywir. Ystyrir ei bod yn ddyfais newydd sydd â modd gweithredu nas rhagwelwyd pan oedd y ddeddfwriaeth a oedd yn cyfyngu ar ddefnyddio cylchoedd rwber, neu ddyfeisiau eraill i gyfyngu ar lif y gwaed, yn cael ei datblygu.

Mae Numnuts yn golygu defnyddio dyfais i chwistrellu anesthetig lleol i wddf y ceillgwd neu’r gynffon ar yr un pryd ag y mae cylch rwber safonol yn cael ei atodi a'i ryddhau. Gan fod cylch rwber yn cael ei defnyddio, caiff ei hystyried yn yr un modd â chylch rwber ym mhob gweinyddiaeth. Gan fod anesthetig yn cael ei roi ar yr un pryd â gosod cylch rwber, gellir ei ddefnyddio ar ŵyn hyd at dri mis oed yn yr Alban.

**Tabl 3. Deddfwriaeth dulliau newydd ar draws pob gweinyddiaeth yn y DU.** Tynnir sylw at wahaniaethau a darperir acronymau ar gyfer deddfwriaeth berthnasol mewn cromfachau. Gweler yr adran “defnyddio'r dull lleiaf poenus ar gyfer triniaethau” am ddisgrifiad o bob dull.

| | Lloegr | Cymru | Yr Alban | Gogledd Iwerddon |
|---|---|---|---|---|
| **ClipFitter (llai na 3 mis oed)** | Gellir ei gyflawni ar anifail nad yw'n hŷn na 7 niwrnod oed (MRE). Does dim angen lleddfu poen. | Gellir ei gyflawni ar anifail nad yw'n hŷn na 7 niwrnod oed (MRW). Does dim angen lleddfu poen. | Gellir ei ddefnyddio hyd at 3 mis oed. Does dim angen lleddfu poen. | Gellir ei gyflawni ar anifail nad yw'n hŷn na 7 niwrnod oed (WAR). Does dim angen lleddfu poen. |
| | Gall unrhyw un sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn ei gyflawni (VSA). | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Numnuts (llai na 3 mis oed)** | Gellir ei gyflawni ar anifail nad yw'n hŷn na 7 niwrnod oed (MRE). | Gellir ei gyflawni ar anifail nad yw'n hŷn na 7 niwrnod oed (MRW). | Gellir ei ddefnyddio hyd at 3 mis oed (PAA). | Gellir ei gyflawni ar anifail nad yw'n hŷn na 7 niwrnod oed (WAR). |
| | Gall unrhyw un sy'n ddeunaw oed neu'n hŷn ei gyflawni (VSA). | | | |